# Cynllun ar gyfer adfer a newid

## Awn ati i adeiladu Cymru well

Maniffesto Plaid Geidwadol Cymru 2021

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Promoted by Tom James on behalf of the Welsh Conservatives, both of Unit 5, Pro-copy Business Centre, Parc Ty Glas, Cardiff, CF14 5DU. Printed by Paragon CC, 8, Quay Point Collivaud Place, Ocean Way, Cardiff CF24 5HF. | Hyrwyddwyd gan Tom James, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, y ddau o Uned 5 Canolfan Fusnes Pro-copy, Parc Tŷ Glas, Caerdydd, CF14 5DU. Argraffwyd gan Paragon CC, Uned 8, Quay Point, Collivaud Place, Ocean Way, Caerdydd, CF24 5HF.

# Ein cynllun

Bydd ein cynllun yn rhoi hwb i adferiad economaidd Cymru ac yn ailadeiladu ar gyfer dyfodol cryfach, gwyrddach, mwy cyfartal drwy wneud y canlynol:

- **Creu 65,000 o swyddi newydd er mwyn helpu economi Cymru i adfer a rhoi sicrwydd cyflog rheolaidd i fwy o bobl**
- **Gwarantu bod y GIG ar gael i bawb drwy adeiladu pump ysbyty newydd a rhoi cyllid ychwanegol i'r GIG bob blwyddyn, gyda 3,000 o nyrsys a 1,200 o feddygon ychwanegol erbyn 2026**
- **Creu cyfraith sy'n dangos ein parch tuag at y GIG yng Nghymru drwy gyflwyno Cyfamod y GIG i warantu mwy o fuddsoddiad a chymorth i'n harwyr yn y GIG yn y dyfodol**
- **Darparu 5,000 o athrawon ychwanegol a mwy o fuddsoddiad mewn addysg yng Nghymru er mwyn darparu'r ysgolion gorau a sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau gorau**
- **Adeiladu 100,000 o dai newydd dros y degawd nesaf er mwyn rhoi hwb i economi Cymru a rhoi'r cyfle i fwy o bobl ddod yn berchen ar eu cartref**
- **Buddsoddi £2 biliwn i greu seilwaith modern i Gymru, gan gynnwys Ffordd Liniaru'r M4, gwaith uwchraddio ar yr A55 a'r A40, ac 20,000 o fannau gwefru gwyrdd**
- **Sicrhau bod Cymru yn Sero-Net erbyn 2050, drwy fuddsoddi mewn datrysiadau ynni glân er mwyn lleihau allyriadau carbon, a chreu 15,000 o swyddi gwyrdd newydd**
- **Helpu pobl â chost pwysau byw, drwy rewi'r Dreth Gyngor am o leiaf y ddwy flynedd nesaf, gan roi mwy o arian ym mhocedi pawb**

# Cynnwys


Cynllun ar gyfer adfer a newid 2

Cyflwyniad 4

Ein cynllun ar gyfer

- Cwblhau'r dasg o ran COVID-19 7
- Sicrhau swyddi a bywoliaeth 9
- Creu gwell ffyrdd, rheilffyrdd a band eang 13
- Creu gwell gwasanaeth gofal iechyd i bawb 17
- Creu gwell ysgolion, colegau a phrifysgolion 23
- Dychwelyd yn wyrddach 29
- Cefnogi cymunedau lleol 33
- Mwy o dai fforddiadwy o safon uchel 39

Ein rhaglen ddeddfwriaethol 40


**Maniffesto Plaid Geidwadol Cymru 2021**

# Cynllun ar gyfer adfer a newid

## Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwlad wedi brwydro yn erbyn yr argyfwng iechyd mwyaf a welodd y byd ers dros ganrif.

Mae pob un ohonom yn adnabod rhywun sydd wedi colli ei swydd, wedi colli ei fusnes neu wedi dioddef y profiad ofnadwy o golli anwylyd o ganlyniad i COVID-19.

Ar hyn o bryd, mae ein heconomi ynghanol y dirwasgiad dyfnaf ers dechrau cadw cofnodion, a dengys tystiolaeth y gallai cymunedau yng Nghymru fod ymhlith y cymunedau yr effeithir arnynt waethaf yn y DU.

Mae'r pandemig wedi amlygu'r hyn y mae 22 mlynedd o lywodraeth Lafur wedi'i wneud i Gymru. Yr economi sy'n tyfu arafaf yn y DU, y canlyniadau addysg gwaethaf a rhestrau aros sydd wedi dyblu yn y GIG – a hynny oll cyn effaith y coronafeirws.

Felly wrth i'r rhaglen frechu fynd rhagddi ac wrth i ni fwrw ati i adfer, mae Cymru wedi cyrraedd croesfan. Ac mae'r etholiadau hyn yn cynnig cyfle gwirioneddol i sicrhau'r newid sydd ei angen ar Gymru.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig gynllun ar gyfer newid, i roi Cymru ar y trywydd cywir unwaith eto, ac i greu dyfodol mwy disglair a llewyrchus.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar greu swyddi drwy fuddsoddi yn y seilwaith a'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol sy'n sail i'n heconomi a'n cymdeithas – ein system trafnidiaeth, ysgolion, ysbytai a thai.

Bydd ein cynllun yn rhoi hwb i adferiad economaidd Cymru ac yn ailadeiladu ar gyfer dyfodol cryfach, gwyrddach, mwy cyfartal drwy wneud y canlynol:

- **Creu 65,000 o swyddi newydd er mwyn helpu economi Cymru i adfer a rhoi sicrwydd cyflog rheolaidd i fwy o bobl**
- **Gwarantu bod y GIG ar gael i bawb drwy adeiladu pump ysbyty newydd a rhoi cyllid ychwanegol i'r GIG bob blwyddyn, gyda 3,000 o nyrsys a 1,200 o feddygon ychwanegol erbyn 2026**
- **Creu cyfraith sy'n dangos ein parch tuag at y GIG yng Nghymru drwy gyflwyno Cyfamod y GIG i warantu mwy o fuddsoddiad a chymorth i'n harwyr yn y GIG yn y dyfodol**
- **Darparu 5,000 o athrawon ychwanegol a mwy o fuddsoddiad mewn addysg yng Nghymru er mwyn darparu'r ysgolion gorau a sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau gorau**
- **Adeiladu 100,000 o dai newydd dros y degawd nesaf er mwyn rhoi hwb i economi Cymru a rhoi'r cyfle i fwy o bobl ddod yn berchen ar eu cartref**
- **Buddsoddi £2 biliwn i greu seilwaith modern i Gymru, gan gynnwys Ffordd Liniaru'r M4, gwaith uwchraddio ar yr A55 a'r A40, ac 20,000 o fannau gwefru gwyrdd**
- **Sicrhau bod Cymru yn Sero-Net erbyn 2050, drwy fuddsoddi mewn datrysiadau ynni glân er mwyn lleihau allyriadau carbon, a chreu 15,000 o swyddi gwyrdd newydd**
- **Helpu pobl â chost pwysau byw, drwy rewi'r Dreth Gyngor am o leiaf y ddwy flynedd nesaf, gan roi mwy o arian ym mhocedi pawb**

Mae ein cynllun ar gyfer adfer a newid yn gredadwy ac wedi'i gostio ac mae'n adlewyrchu gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer dyfodol mwy disglair i Gymru.

Drwy ein cefnogi ar 6 Mai, byddwn yn rhoi'r newid sydd ei angen ar Gymru i adfer ar waith ac yn adeiladu Cymru well.

**Andrew RT Davies**
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd

**Y Gwir Anrhydeddus Boris Johnson AS**
Prif Weinidog y DU ac Arweinydd y Blaid Geidwadol

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# CYFLWYNIAD

Mae Cymru yn yr oes sydd ohoni yn gwbl wahanol i Gymru 22 mlynedd yn ôl ar adeg ffurfio Cynulliad Cymru.

Ni ddefnyddir yr enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, yr enw erbyn hyn yw Senedd Cymru. Am y tro cyntaf ers 800 mlynedd, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau o ran faint o dreth a delir gennym, yn ogystal â'r gallu i greu trethi newydd.

Fodd bynnag, nid yw popeth wedi newid. Mae Llafur mewn grym o hyd, fel y bu ers 22 mlynedd.

Ond nid yw pobl Cymru yn teimlo'n well eu byd ac nid oes ganddynt fwy o gyfleoedd nag yr oedd ganddynt pan gymerodd Llafur gyfrifoldeb dros ein gwlad am y tro cyntaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn arbennig, daeth y diffygion difrifol y mae Llafur Cymru wedi caniatáu iddynt waethygu dros y cyfnod hwnnw yn ein heconomi, ein cymdeithas a'n system gofal iechyd, yn gwbl amlwg.

Mae'n bryd newid. Ac mae'r etholiad hwn yn gyfle i bobl Cymru bleidleisio dros y newid y maent am ei gael, gan greu gwlad fwy llewyrchus â chyfleoedd a gobaith ar gyfer gwell dyfodol.

Ein blaenoriaeth bennaf yw trechu COVID-19. Byddwn yn parhau â'r llwyddiant yng Nghymru ac ym Mhrydain i gynnig y brechlyn i bawb, ac yn rhoi hwb i adferiad Cymru ar yr un pryd. Wrth i'r rhaglen frechu fynd rhagddi, byddwn yn ailadeiladu Cymru, gan ddechrau â'r economi. Heb economi gref, ni allwn fuddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt na chynnig cyfleoedd cyfartal ledled Cymru.

Mae ein gweledigaeth wedi'i hategu gan ein cynllun ar gyfer newid, sydd wedi'i gostio. Bydd yn sicrhau adferiad economaidd a swyddi drwy ddod â'r tin-droi a'r oedi a fu'n rhan o Lywodraeth Cymru, ac sydd wedi ein hatal cyhyd ac wedi arwain at golli swyddi ac effaith andwyol ar ddyfodol cymaint o bobl, i ben.

Drwy greu mwy o swyddi, byddwn yn adfer gobaith, uchelgais a chyfle i Gymru, er mwyn i bawb allu gweld y gris nesaf ar yr ysgol. Os byddwch yn awyddus i sefydlu eich busnes eich hun, dod yn berchen ar eich cartref neu gael swydd newydd fydd yn eich helpu i ddarparu ar eich cyfer chi a'ch teulu, byddwn yn eich cefnogi ac yn eich helpu i gyflawni hynny.

Bydd ein cynllun ar gyfer newid yn cyflwyno gwell ysbytai drwy fuddsoddi mwy yn ein GIG yng Nghymru. Gyda mwy o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, byddwn yn mynd i'r afael â'r argyfwng amseroedd aros am driniaeth yng Nghymru, a wnaeth ddyblu yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig ond sydd wedi ffrwydro ers hynny.

Bydd ein cynllun ar gyfer newid yn sicrhau ysgolion o'r radd flaenaf drwy ddod â'r sefyllfa lle na roddwyd digon o gyllid i'n pobl ifanc i ben – sefyllfa sydd wedi bodoli ers yn rhy hir o lawer o dan Lywodraethau Llafur dilynol, a darparu 5,000 o athrawon ychwanegol yn ein hystafelloedd dosbarth. Ni all ein system addysg barhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU. Rhaid i'n pobl ifanc gael cynnig yr un cyfleoedd â rhannau eraill o'r DU.

Gallwn ailadeiladu Cymru i fod yn wlad sy'n cynnig cyfle. Gallwn unwaith eto bweru'r byd, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy gwyrdd y tro hwn, a thrawsnewid economi Cymru i fod yn ganolfan fyd-eang ar gyfer yr economi werdd.

Credaf y gallwn adeiladu Cymru well o fewn Deyrnas Unedig gryf.

Yn Gymru gryf o fewn Prydain Fyd-eang newydd sy'n manteisio ar y cytundebau masnach newydd sydd ar gael ledled y byd yn dilyn Brexit. Lle y gallwn, fel rhan o'r DU, sicrhau bod ein strydoedd yn ddiogel drwy ddarparu mwy o swyddogion yr heddlu a mwy o fuddsoddiad, gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio o ddifrif i sicrhau cyfleoedd cyfartal ledled Cymru gyfan â seilwaith newydd i gefnogi ein heconomi, ein GIG a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Tra bod gan Lafur a Phlaid obsesiwn gyda'r cyfansoddiad, mae ein cynllun ni yn canolbwyntio'n llwyr ar adfer Cymru yn dilyn y pandemig. Yn hytrach na cheisio mwy o bwerau, mwy o wleidyddion neu godi eich trethi, byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym eisoes yng Nghymru i gynnig cyfleoedd cyfartal ledled y wlad a sicrhau gwelliannau i bawb.

Mae Cymru wedi cyrraedd croesfan yn dilyn y pandemig. Mae'r dewis ar 6 Mai yn glir. Gallwn naill ai ddewis Llafur, a pharhau â'r un hen ddiffyg twf a fu ers 20 mlynedd bellach – neu gallwn ddewis pleidleisio dros newid, a'r gobaith o weld gwlad fwy llewyrchus â gwell swyddi a chyfleoedd i'n plant.

Gydag egni newydd a syniadau newydd, byddwn yn rhoi ein cynllun ar gyfer adfer a newid ar waith. System trafnidiaeth sy'n addas at y diben, 65,000 o swyddi ychwanegol. Gwell ysbytai â mwy o staff y GIG ar y rheng flaen. Ysgolion o'r radd flaenaf â mwy o athrawon. A Chymru gryfach, fwy llewyrchus.

**Andrew RT Davies**
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd





# Cwblhau'r dasg o ran COVID-19

Gwnaed cynnydd sylweddol eisoes, ond bydd angen i 100 diwrnod cyntaf Llywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar ennill y frwydr yn erbyn COVID-19. Byddwn yn:

- **Rhoi ein map ffordd i adferiad ar waith sy'n cynnwys amserlen glir a thargedau uchelgeisiol ar gyfer y brechlyn er mwyn ailagor ein heconomi a'n cymdeithas yn llwyr,** gan gynnig cyfleoedd i fusnesau gynllunio eu hadfywiad, a dull gweithredu cydgysylltiedig ledled y DU
- **Gwella'r system Profi, Olrhain a Diogelu** drwy ddarparu cyllid i fodloni'r galw i ymateb i unrhyw achosion penodol, gan osgoi unrhyw gyfyngiadau symud cenedlaethol pellach
- **Cynnal adolygiad brys a dechrau rhoi cyllid i fusnesau ar unwaith yn seiliedig ar anghenion,** gan ddod â threfn y cyntaf i'r felin, a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth bresennol Cymru i gefnogi swyddi yng Nghymru, i ben
- **Creu rhaglen ddychwelyd wirioneddol i'n pobl ifanc o'r dysgu personol a gollwyd,** gan gynnig cymorth sylweddol ar gyfer tiwtora, ysgolion haf a help wedi'i dargedu i'r rheini sydd ei angen
- **Datblygu cynllun clir er mwyn galluogi'r GIG yng Nghymru i glirio'r ôl-groniad o restrau aros sydd wedi gwaethygu ymhellach yn ystod y pandemig,** gan ddefnyddio cyfleusterau trawsffiniol ac annibynnol i gyflymu triniaethau
- **Annog aelodau o'r cyhoedd a chyn-weithwyr gofal iechyd proffesiynol i ymuno â'u tîm GIG lleol,** fel gweithwyr rhan amser wrth gefn, er mwyn helpu ein GIG yn ystod cyfnodau o alw uchel
- **Sicrhau na chaiff y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig eu colli** drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus i bob agwedd ar y ffordd yr ymdriniwyd â COVID-19 yng Nghymru
- **Penodi Gweinidog Adfer COVID-19 penodedig o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio pob maes sy'n gysylltiedig ag adfer ar ôl y coronafeirws,** gan gynnwys rhoi'r rhaglen frechu ar waith ledled Cymru gyda phob oedolyn yn cael cynnig y ddau ddos erbyn diwedd mis Hydref, ac unrhyw bigiadau atgyfnerthu fydd yn cael eu cyflwyno
- **Cynnal a gwella'r rhaglen ar gyfer profi unigolion asymptomatig am COVID-19 mewn ysgolion ac mewn busnesau** â mwy na 10 o weithwyr
- **Helpu pobl sy'n profi effeithiau hirdymor COVID-19** drwy sefydlu clinigau penodol ar gyfer trin COVID hir, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan y Llywodraeth
- **Sicrhau bod Cymru yn barod pe ceid pandemig arall,** gan weithio i greu Rhwydwaith Pandemig Cymru i gynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) a hylif diheintio dwylo i gefnogi ein GIG a chartrefi gofal yng Nghymru
- **Bwrw ati ar fyrder i greu llwybrau cymorth i bobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig, yn enwedig staff y GIG, gweithwyr gofal a theuluoedd** sydd wedi profi trawma gan fod cleifion ar eu pen eu hunain ar adeg eu marwolaeth



# Sicrhau swyddi a bywoliaeth

Mae'r pandemig wedi cael effaith ddinistriol ar yr economi yng Nghymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi helpu i ddiogelu mwy na 500,000 o swyddi yng Nghymru, roedd yr economi yng Nghymru yn fregus yn dilyn 22 mlynedd o Lywodraethau o dan arweiniad Llafur yng Nghymru. Roedd yr economi yn dirywio hyd yn oed cyn y pandemig, ac mae angen i ni roi hwb i'r injan ddiwydiannol yng Nghymru er mwyn ailadeiladu'r wlad.

Bydd ein cynllun yn darparu mwy o swyddi, gobaith a sicrwydd i bawb yng Nghymru. Bydd yn ailadeiladu ac yn ailgydbwyso ein heconomi, er mwyn i ni allu cynnig cyfleoedd cyfartal ledled Cymru gan ddefnyddio technoleg newydd a buddsoddiadau newydd. Bydd ein cynllun yn ein galluogi i ddychwelyd yn gryfach o'r pandemig a'r penderfyniadau gwael a'r cyfleoedd a gollwyd gan Lywodraethau Llafur yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad ychwanegol o £2.5 biliwn gan Lywodraeth y DU i gyflawni ein hymrwymiadau ac i sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael y cymorth sydd ei angen arni i ddychwelyd yn gryfach o'r pandemig.

- Roedd yr economi yng Nghymru yn dirywio cyn dechrau'r pandemig, gan leihau 2.4% ar ddechrau 2020
- Cyn y pandemig, roedd cyfradd cyflogaeth Cymru yn is na chyfartaledd y DU
- Mae cyflog blynyddol cyfartalog gweithwyr fwy na £2,600 y flwyddyn yn is na gweithiwr yn yr Alban neu Loegr
- Mae busnesau yng Nghymru yn talu'r gyfradd dreth uchaf ym Mhrydain
- Mae 10 o drefi Cymru ymhlith yr 20 o drefi mwyaf agored i niwed economaidd yn y DU

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Creu 65,000 o swyddi yng Nghymru yn ystod y Senedd nesaf,** gydag o leiaf 15,000 o swyddi gwyrdd
- **Sefydlu Cenhadaeth Genedlaethol i dyfu economi Cymru, gyda tharged clir i greu 65,000 o swyddi newydd** gyda'r llywodraeth, busnesau ac entrepreneuriaid oll yn cydweithio i chwarae eu rhan. Ar ôl cyflawni ein Cenhadaeth Genedlaethol, byddwn yn lleihau cyfradd sylfaenol treth incwm er mwyn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio'n galed
- **Sicrhau na fydd unrhyw drethi newydd** yn ystod cyfnod y Senedd nesaf
- **Darparu 100,000 o gartrefi newydd** yn ystod y 10 mlynedd nesaf
- **Cyflwyno pecyn adfer COVID,** sy'n cynnwys sefydlu Cronfa Fuddsoddi Ailgodi Cymru gwerth £2.5 biliwn a chynnal y gostyngiad mewn TAW ar lefel o 5% i fusnesau twristiaeth tan fis Ebrill 2022

- **Cefnogi micro fusnesau newydd** â'n "Cynllun Hwb" ("Jump Start Scheme") gan dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar gyfer dau weithiwr newydd am ddwy flynedd er mwyn cyflymu twf
- **Sefydlu "Arloesi Cymru", wedi'i leoli yn y gogledd,** sef siop un stop i gwmnïau i gefnogi mentrau newydd, ac annog busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu ac allforio
- **Creu Parthau Dim Ardrethi Busnes** sy'n cynnig gwyliau o 3 blynedd rhag talu ardrethi busnes i fusnesau bach a chanolig fel rhan o'n Cronfa Adfer Cymunedol ar gyfer COVID
- **Atal cyrchoedd trethi Llafur,** gan gynnwys y Dreth Twristiaeth, y Dreth Gofal Cymdeithasol, y Dreth Gyrru a'r Dreth Parcio i Weithwyr
- **Diddymu ardrethi busnes i fusnesau bach** a diwygio'r dreth ar dwf sydd wedi dyddio
- **Gwyrdroi penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal Porthladd Rhydd yng Nghymru,** gan arwain at ddatblygu dros 15,000 o swyddi
- **Hybu cyfleoedd i'r gweithwyr y cafodd y pandemig yr effaith fwyaf arnynt** drwy ein rhaglen "Ailhyfforddi ac Ennill" ("Retrain, Gain") yn dilyn COVID er mwyn annog pobl i ymuno â sectorau allweddol a rhoi hwb i'r economi
- **Anelu at ddod â'r dreth ar ddyhead i ben drwy leihau'r Dreth Trafodiadau Tir (y dreth stamp),** ei diddymu i brynwyr tro cyntaf a chynyddu'r trothwy i £250,000 er mwyn helpu mwy o deuluoedd a phobl sy'n gweithio'n galed i elwa ar y sicrwydd sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar gartref
- **Cynnal adolygiadau o bob sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru** er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian i drethdalwyr
- **Gwrthod y cynnig i gynyddu** nifer Aelodau'r Senedd
- **Helpu cwmnïau yng Nghymru i adfer ar ôl y pandemig** drwy roi blaenoriaeth iddynt ar gyfer contractau'r llywodraeth drwy fwrw ati i hyrwyddo cyfleoedd, yn enwedig i ficro fusnesau a busnesau bach

## Cyflwyno bargen newydd i'r gogledd:

- **Cyflwyno Gweinidog penodedig i'r gogledd** er mwyn sicrhau na chaiff y rhanbarth ei anghofio mwyach
- **Symud Trysorlys newydd Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru diwygiedig i'r gogledd** gan greu 200 o swyddi newydd
- **Cydbwyso a chydgysylltu trafnidiaeth gyhoeddus yn y gogledd,** gan gyflwyno Metro Gogledd Cymru sy'n integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus â theithio llesol
- **Uwchraddio'r A55** er mwyn ymdrin â mannau sy'n achosi trafferthion a gwella gwydnwch
- **Gwella cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr,** gan gynnwys meysydd awyr Manceinion a Lerpwl
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno Porthladd Rhydd** yng Nghaergybi
- **Hybu'r gogledd** fel cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr rhyngwladol
- **Sefydlu Athrofa Technoleg Gogledd-ddwyrain Cymru**
- **Lleoli un o gasgliadau'r Oriel Gelf Genedlaethol yn y gogledd**
- **Cyflwyno ysbytai cymunedol modern** yn y Rhyl a'r Fflint, ac ysgol feddygol newydd i'r gogledd
- **Adeiladu Canolfan Diagnostig Cyflym i'r gogledd** gan leihau amseroedd aros am brofion a lleihau'r angen i ddychwelyd i'r ysbyty am apwyntiadau dilynol
- **Creu uned mam a'i baban yn y gogledd** i famau sy'n wynebu heriau iechyd meddwl ôl-enedigol difrifol
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cydweithrediad trawsffiniol** rhwng y gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr mewn perthynas ag iechyd, cynllunio a datblygu economaidd



# Ailadeiladu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru

## Y sefyllfa bresennol:

Mae twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol yng Nghymru, gan gyflogi mwy na 150,000 o bobl a chyfrannu tua £6 biliwn i economi Cymru. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y sector a bydd angen cymorth er mwyn rhoi hwb i'r diwydiant a denu mwy o bobl i ddod ar wyliau i Gymru.

Er gwaethaf y rhan bwysig y mae twristiaeth yn ei chwarae yng Nghymru, cafodd ei hesgeuluso gan Lywodraethau Llafur olynol. Gwnaethant fethu â buddsoddi yn ein cysylltiadau trafnidiaeth, methu â hyrwyddo Cymru fel cyrchfan flaenllaw ac maent bellach yn bygwth pobl sy'n dod ar wyliau â threthi newydd er mwyn ymweld â Chymru.

Mae gennym gynllun clir i ailadeiladu'r diwydiant twristiaeth, er mwyn ei helpu i ddychwelyd yn gryfach a hyrwyddo Cymru i'r byd, gan wella'r opsiynau sydd ar gael i ymwelwyr er mwyn cynyddu niferoedd, creu swyddi a rhoi hwb i'r economi.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Ailadeiladu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru** drwy lansio ymgyrch farchnata ryngwladol, "Profi Cymru" ("Experience Wales") gan gyflwyno'r gogledd fel cyrchfan bwysig i bobl o bob cwr o'r byd
- **Gweithio gyda'r diwydiant, cyflwyno Gŵyl Croeso Nôl i Gymru yn 2022** er mwyn arddangos twristiaeth yng Nghymru ac annog pobl i ddychwelyd ar ôl y pandemig, gan ddefnyddio Jiwbilî'r Frenhines i hyrwyddo'r rhannau gorau o Gymru a Phrydain
- Ar y cyd â Llywodraeth y DU, **cynnal y gostyngiad mewn TAW i fusnesau twristiaeth tan fis Ebrill 2022**
- **Creu pecyn dychwelyd i drefi glan môr a threfi marchnad er mwyn cynnig cyfleoedd cyfartal drwy Gronfa Trefi Twristiaeth,** gan alluogi cymunedau i wella eu heconomi leol drwy ddenu ymwelwyr newydd â WiFi am ddim neu well cysylltiadau trafnidiaeth
- **Rhyddhau potensial Croeso Cymru** drwy roi annibyniaeth weithredol iddo ar Lywodraeth Cymru a'i alluogi i weithredu o dan arweiniad y diwydiant
- **Cynyddu darpariaeth dwristiaeth genedlaethol Cymru** drwy gadw'r cynllun mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol, creu Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru yn Aberhonddu, Arsyllfa Genedlaethol Cymru, Neuadd Enwogion Byd Chwaraeon Cymru ac Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru, gyda chasgliadau yn y gogledd a'r de
- **Gweithio gyda sefydliadau sy'n gweithredu ledled y DU, fel Visit Britain, i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol** a gyda chwmnïau awyrennau er mwyn sicrhau mwy o lwybrau i mewn i Gymru

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU

- **Rhoi Bargeinion Twf gwerth £800 miliwn ar waith ar gyfer Cymru gyfan**
- **Cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal i Gymru gyfan
- **Gwahardd cyrff cyhoeddus rhag gorfodi eu hymgyrchoedd boicotio, dadfuddsoddi neu sancsiynau uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn gwledydd tramor,** sy'n tanseilio cydlyniant cymunedol





# Creu gwell ffyrdd, rheilffyrdd a band eang

## Y sefyllfa bresennol:

### Mae ein heconomi yn cael ei hatal gan system trafnidiaeth sy'n methu â chysylltu pobl â swyddi. Mae tagfeydd parhaus ar lawer o'n ffyrdd. Mae trenau yn orlawn neu anaml y maent yn rhedeg yn brydlon. Ac mae ein rhwydwaith bysiau yn methu â gwasanaethu gormod o gymunedau gwledig.

Mae hyn oll yn atal busnesau rhag sefydlu yng Nghymru, nid yw'n caniatáu i ni gefnogi ein diwydiannau twristiaeth ac mae'n gwneud i'n pobl ifanc deimlo bod yn rhaid iddynt adael Cymru er mwyn cael gyrfa lwyddiannus.

Mae gennym gynllun gwirioneddol i gynnig cyfleoedd cyfartal i Gymru gyda chymorth Llywodraeth y DU ac i ddarparu'r seilwaith y mae Cymru yn ei haeddu, gan greu swyddi a chyfleoedd i bawb.

- Lleihaodd nifer y teithiau gan ddefnyddio bysiau lleol yng Nghymru 22% rhwng 2008/9 a 2018/19
- Dim ond £50 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi i'r Metro yn y gogledd – £700 miliwn yn llai na'r de
- Ceir 30,000 o dagfeydd traffig yng Nghymru bob blwyddyn gan gostio bron i £300 miliwn i economi Cymru
- Canslwyd 9,000 o wasanaethau trên yn 2018/19

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Adeiladu ffordd liniaru'r M4 yn y de, uwchraddio'r A55 yn y gogledd a'r A40 yn y gorllewin.** Fel llwybrau allweddol i weddill y Deyrnas Unedig, byddem yn eu dynodi'n "Briffyrdd Uno" er mwyn sicrhau blaenoriaeth iddynt wrth ailadeiladu ein heconomi
- **Cydbwyso a chydgysylltu trafnidiaeth gyhoeddus yn y gogledd,** gan gyflwyno Metro Gogledd Cymru sy'n integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus â theithio llesol
- **Agor y canolbarth drwy uwchraddio'r A470, gan greu mannau pasio lle y bo'n briodol,** yn ogystal â Chronfa Ffyrdd Gwledig gwerth £250 miliwn i gael gwared ar dyllau yn y ffordd a gwella diogelwch
- **Dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i berchenogaeth breifat**




**Liz Hill O'Shea**
**Ymgeisydd Aberafan**
**Gwirfoddolwr Cymunedol**

- **Hyrwyddo ffyrdd osgoi Dinas Powys a Chas-gwent**
- **Sefydlu Cronfa Datblygu Porthladdoedd Cymru gwerth £20 miliwn** i gefnogi cynnydd mewn allforion o Gymru, gan greu mwy o swyddi, ochr yn ochr â rhaglen Porthladdoedd Rhydd Llywodraeth y DU
- **Cefnogi busnesau gwledig a galluogi mwy o bobl i weithio o gartref** drwy ddiddymu ardaloedd lle na cheir signal ar gyfer ffonau symudol a band eang drwy ddileu'r rhwystrau sy'n atal gwelliannau i'r rhwydwaith a chreu Cronfa Ardaloedd Digyswllt gwerth £50 miliwn
- **Creu rhwydwaith gwefru cyflym o 20,000 o orsafoedd gwefru ceir trydan**
- **Ysgogi prifysgolion yng Nghymru a'r sector preifat** i greu canolfan ragoriaeth ac ymchwil ym maes storio a chludo ynni

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU

- **Sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i fanteisio ar gronfa Codi'r Gwastad £4.8 biliwn Llywodraeth y DU** i Gymru gyfan
- **Gwella'r seilwaith rheilffyrdd,** er enghraifft Parcffordd Gorllewin Cymru
- **Gwella cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr,** gan gynnwys meysydd awyr Manceinion a Lerpwl
- **Sefydlu'r gogledd fel hwb Adweithydd Modiwlar Bach y DU gan greu swyddi medrus, hirdymor**





**Peter Fox**
**Ymgeisydd Trefynwy**
**Arweinydd y Cyngor**



- Roedd 5 allan o'r 7 bwrdd iechyd yng Nghymru yn destun mesurau arbennig neu ymyriadau wedi'u targedu yn 2019
- Ni lwyddwyd erioed i gyrraedd y targed o sicrhau bod 95% o bobl yn cael eu gweld mewn adrannau damweiniau ac achosion brys o fewn pedair awr
- Ni chyflawnwyd y targedau amseroedd aros ar gyfer canser ers 2008
- Cyn y pandemig, roedd 1 o bob 7 person yng Nghymru ar restr aros am driniaeth – pedair gwaith cymaint o bobl ag yn Lloegr
- Mae mwy na 2,000 o bobl wedi bod yn aros mwy na 2 flynedd am driniaeth

# Creu gwell gwasanaeth gofal iechyd i bawb

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi meithrin parch newydd tuag at ein gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol rheng flaen ymhlith llawer o bobl. Maent wedi dioddef mwy nag y gall unrhyw un ei ddychmygu. Mae dyletswydd arnom i sicrhau bod y cyfleusterau gorau ar gael iddynt wneud eu gwaith. Yn y pen draw, mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn enwedig pan fyddant yno i'n helpu drwy ein cyfnodau mwyaf tywyll.

Drwy gydol y llynedd, bu ein gwasanaeth iechyd yn destun craffu. Mae'r pandemig wedi cynyddu amseroedd aros yn sylweddol, ond yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig, roedd amseroedd aros yng Nghymru wedi dyblu, ac mae'r targedau ar gyfer cael triniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac ar gyfer canser yn parhau i gael eu methu neu ni lwyddwyd i'w cyrraedd erioed.

Ond mae'r pandemig hefyd wedi dangos beth y gallwn ei wneud fel Teyrnas Unedig. Gyda'n gilydd, mae trefniadau'r DU ar gyfer cyflenwi brechlynnau wedi bod o'r radd flaenaf, gan alluogi'r DU i roi un o'r rhaglenni brechu cyflymaf ar waith. Drwy gydweithio yn y dyfodol, bydd ein gwasanaethau allweddol, yn enwedig ein GIG, yn elwa.

Bydd ein cynllun ar gyfer y GIG yng Nghymru yn buddsoddi mwy er mwyn creu gwasanaeth iechyd cryfach a all fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Bu effaith y pandemig ar ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl yn sylweddol, ac mae angen cynllun uchelgeisiol ar ein GIG er mwyn clirio'r ôl-groniadau a thrwsio'r difrod a wnaed, nid yn unig gan y pandemig, ond gan ugain mlynedd o Lafur yng Nghymru. Wrth i'r rhaglen frechu fynd rhagddi, gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r rhestrau aros y gadawodd Llafur iddynt fynd allan o reolaeth cyn y pandemig.

Ar y cyd â'r gweithwyr proffesiynol yn y GIG, bydd ein cynllun yn clirio'r ôl-groniadau ac yn trwsio'r difrod drwy gydweithio â Llywodraeth y DU i ddefnyddio cyfleusterau'r GIG ledled y DU, gwarantu buddsoddiad yn ein GIG a recriwtio 1,200 o feddygon a 3,000 o nyrsys.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Cynnwys Cyfamod y GIG fel rhan o'r gyfraith** er mwyn diogelu'r GIG ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gwarantu mwy o wariant ar y GIG a gofal sylfaenol bob blwyddyn, a sicrhau bod staff yn cael y cyflog a'r gwobrau y maent yn eu haeddu
- **Sicrhau na ddylai neb aros fwy na blwyddyn am driniaeth** yn y GIG drwy ein Gwarant i Gleifion
- **Trawsnewid iechyd meddwl** drwy roi'r un flaenoriaeth iddo ag iechyd corfforol
- **Cefnogi cleifion drwy gyflwyno Comisiynydd Diogelwch Cleifion newydd,** a sicrhau bod hawl cleifion i ddewis sut maent yn cael gafael ar driniaeth yn cael ei pharchu
- **Darparu 1,200 yn fwy o feddygon, 3,000 yn fwy o nyrsys** a gweithwyr proffesiynol eraill drwy ein rhaglen 'Cadw, recriwtio a hyfforddi'
- **Annog aelodau o'r cyhoedd a chyn-weithwyr gofal iechyd proffesiynol i ymuno â'u tîm GIG lleol,** fel gweithwyr rhan amser wrth gefn, er mwyn helpu ein GIG yn ystod cyfnodau o alw uchel
- **Cael gwared ar giwiau o ambiwlansys y tu allan i ysbytai yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar yr amser cyn cael triniaeth i gleifion,** er mwyn sicrhau bod ambiwlansys ac ysbytai yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal amserol
- **Dyblu ein capasiti gofal critigol**

## CREU GIG CADARNACH

- **Creu GIG Cymru fel sefydliad ar wahân,** sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru
- **Sefydlu Cronfa Adfer Ysbytai ac Adeiladau'r GIG er mwyn cynnig cyfleoedd cyfartal a moderneiddio ysbytai a chyfleusterau gofal sylfaenol ledled Cymru,** gan sicrhau bod y cyfleusterau diweddaraf ar gael i staff gwerthfawr y GIG a'u cleifion ac y gellir darparu gofal o'r radd flaenaf
- **Croesawu ffyrdd newydd o weithio,** fel apwyntiadau ar-lein, er mwyn ei gwneud hi'n haws gweld meddyg teulu neu arbenigwr
- **Ehangu'r Gronfa Cael Gafael ar Driniaethau** er mwyn i feddygon allu defnyddio'r triniaethau mwyaf datblygedig ar gyfer achub bywydau nad ydynt ar gael fel rhan o'r GIG ar hyn o bryd i drin canser, clefydau anghyffredin a chyflyrau eraill
- **Gweithio gyda Llywodraethau eraill ledled y DU** i warantu y gall cleifion gael gafael ar y ddarpariaeth iechyd briodol agosaf gan ddefnyddio cyfleusterau trawsffiniol ac annibynnol i gyflymu triniaethau
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ymatebion brys i bandemig yn gydnaws ledled y DU,** a bod negeseuon cyson yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu cyfleu
- **Rhoi system genedlaethol ar waith i atgoffa pobl am frechiadau**
- **Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw mewn ysgolion,** darparu mynediad am ddim i gampfeydd a chanolfannau hamdden awdurdodau lleol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a buddsoddi mewn mwy o opsiynau teithio llesol o ran cerdded a beicio

## TRAWSNEWID IECHYD MEDDWL A RHOI MWY O FLAENORIAETH IDDO

- **Cynnal adolygiad sylfaenol o wasanaethau iechyd meddwl drwy Gomisiwn ar Iechyd Meddwl,** gyda defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a'r sector elusennol
- **Cyflwyno Deddf Iechyd Meddwl newydd** i ddisodli'r ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio ac i sicrhau y caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei chynnwys wrth ddarparu ar gyfer iechyd meddwl
- **Pennu a chyhoeddi targedau ar amseroedd aros** am driniaethau iechyd meddwl ar gyfer materion allweddol gan gynnwys anhwylderau bwyta
- **Cynyddu'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl a llesiant mewn termau real** bob blwyddyn yn ystod tymor Senedd nesaf Cymru
- **Creu rhwydwaith o ganolfannau argyfyngau iechyd meddwl** sydd ar agor bob awr o'r dydd i bobl eu defnyddio yn ystod argyfwng iechyd meddwl
- **Sicrhau bod triniaethau iechyd meddwl yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a gweithio gyda Phrifysgolion** i sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan arweiniol ym maes triniaethau iechyd meddwl
- **Cynyddu capasiti gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc** er mwyn atal lleoliadau sy'n golygu eu bod yn bell oddi wrth eu hanwyliaid
- **Darparu unedau mam a'i baban penodedig** yn y gogledd a'r de
- **Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant** ar gael i ddysgwyr **ym mhob ysgol, coleg a phrifysgol**



**Gareth Lloyd Davies**
Ymgeisydd Dyffryn Clwyd
Ffisio yn y GIG

## GWELLA SAFONAU, TREFNIADAU LLYWODRAETHU A DIOGELWCH

- **Sefydlu Arolygiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd ar y cyd,** sef "Gwella Iechyd a Gofal Cymru", er mwyn dod â'r cylch o fyrddau iechyd sy'n destun mesurau arbennig neu ymyriadau wedi'u targedu i ben
- **Byddai Gwella Iechyd a Gofal Cymru yn pennu targedau priodol** ar gyfer y GIG ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol a'r cyhoedd yn eu cefnogi
- **Cael gwared ar ddylanwad Gweinidogion ar drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd y GIG** a rhoi pwerau i'r arolygiaeth newydd ymyrryd yn gyflym pan gaiff problemau eu nodi
- **Gwarantu dyfodol Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru** dros dymor llawn Senedd nesaf Cymru, gan ddiogelu eu hannibyniaeth er mwyn gwella eu rôl fel cyrff gwarchod i gleifion
- **Sicrhau y caiff meddygon teulu eu cynrychioli ar bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru**
- **Diweddaru systemau rheoli ambiwlansys** er mwyn anfon cleifion i'r adran damweiniau ac achosion brys gyflymaf ar y pryd, a chyflwyno targed aros 'o'r ambiwlans i'r gwely'

## GWELLA CANLYNIADAU A MYNEDIAD CLEIFION I OFAL IECHYD

- **Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau cyflenwi cenedlaethol newydd ar gyfer y canlynol, a'u cyhoeddi o fewn 12 mis:**
  - Canser
  - Clefyd y Galon
  - Strôc
  - Dementia
- **Atal penderfyniadau i gau ac israddio ysbytai** ar gyfer cyfnod Senedd nesaf Cymru
- **Darparu pump ysbyty cymunedol newydd ac wedi'u huwchraddio** yn ystod y senedd nesaf yn y Fflint, Llandrindod, y Drenewydd, y Rhyl a'r gorllewin
- **Sefydlu canolfan ragoriaeth canser newydd i'r de-ddwyrain,** yn dilyn adolygiad clinigol annibynnol
- **Adeiladu rhwydwaith o ganolfannau diagnostig cyflym ledled Cymru** er mwyn lleihau amseroedd aros am brofion a lleihau'r angen i ddychwelyd i'r ysbyty am apwyntiadau dilynol
- **Diogelu statws Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlffordd fel ysbytai dosbarth cyffredinol sy'n cynnig gwasanaeth llawn,** ac ailddechrau gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Llwynhelyg
- **Ailystyried y cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth gofal iechyd yn y gorllewin**
- **Ehangu rôl fferyllfeydd cymunedol wrth ddarparu gofal iechyd** drwy gontract newydd, gan gynnwys rhagnodi ar gyfer anhwylderau cyffredin, imiwneiddio a chynnal profion diagnostig, ac adolygu meddyginiaethau
- **Cyflwyno presgripsiynau electronig**
- **Rhoi contract deintyddol newydd ar waith er mwyn adlewyrchu arferion deintyddol modern,** gan sicrhau bod deintyddiaeth y GIG yn yrfa ddeniadol, a gwella mynediad at ddeintyddion ledled Cymru
- **Cefnogi cleifion sy'n cael triniaeth am ganser** drwy ddarparu gofal deintyddol am ddim
- **Ehangu rôl optegwyr wrth ddarparu gofal llygaid yn y gymuned,** gan gynnwys trin cyflyrau llygaid ysgafn a monitro cyflyrau dirywiol, fel glawcoma
- **Ailagor Unedau Mân Anafiadau yn y Rhyl a Dinbych-y-Pysgod**
- **Sefydlu Gwasanaeth Caethiwed Gamblo'r GIG i Gymru**
- **Cyflwyno Deddf Awtistiaeth i Gymru** a gwella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu

## GWELLA GOFAL CYMDEITHASOL

Mae darparu gofal cymdeithasol effeithiol a thrugarog yn un o'r heriau a'r cyfrifoldebau mwyaf sy'n wynebu llywodraethau wrth i bobl barhau i fyw'n hwy. Byddwn yn datblygu cynllun i ddarparu gofal cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer y dyfodol drwy sefydlu Comisiwn Trawsbleidiol i ystyried datrysiadau cyllido cynaliadwy hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol, ac yn gwarantu amser i'r senedd roi ei argymhellion ar waith.

### Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud:

- **Penodi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru**
- **Cyflwyno Isafswm Cyflog Gofal o £10 yr awr yng Nghymru** er mwyn cynyddu cyflog gweithwyr gofal ledled Cymru a chydnabod eu gwaith hanfodol
- **Gweithio gyda'r sector i recriwtio a chadw gweithwyr gofal,** gan gynnwys hyfforddi gweithwyr mewn cartrefi gofal i ymgymryd â gwiriadau sylfaenol fel pwysedd gwaed a mynd i'r afael ag anhwylderau cyffredin fel achosion o faglu a chwympo
- **Ehangu rôl Therapyddion Galwedigaethol** fel rhan o ofal cofleidiol er mwyn cynnal annibyniaeth cleifion, ac adolygu mynediad i'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn sicrhau bod tai yn chwarae'r rhan fwyaf bosibl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- **Cynyddu'r terfyn cyfalaf i £100,000 i'r rheini sy'n cael gofal preswyl** er mwyn sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes oherwydd costau gofal
- **Sefydlu Cronfa Arloesi mewn Gofal gwerth £15 miliwn** er mwyn annog cydweithio rhwng y GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol
- **Hyrwyddo trefniadau ar gyfer byw'n annibynnol** drwy gynnig hunanasesiadau ar-lein er mwyn helpu i nodi anghenion cymorth yn gynnar
- **Cyflwyno hawl i seibiant i ofalwyr di-dâl** a rhoi mynediad am ddim iddynt i hyfforddiant, cymorth ac asesiadau gofalwyr
- **Cefnogi gofalwyr ifanc drwy gynllun Cardiau Gofalwyr Ifanc** er mwyn iddynt allu teithio am ddim ar fysiau a chael grantiau er mwyn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- **Ehangu cynlluniau teithio am ddim ar fysiau** i brif ofalwyr y rheini dros 60 oed



- Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae nifer yr athrawon yng Nghymru wedi lleihau bron i 3,800
- Mae gwariant fesul disgybl wedi gostwng 6% ers 2010
- Roedd canlyniadau TGAU yn 2019 yn waeth nag yn 2007
- Mae nifer y myfyrwyr addysg bellach yng Nghymru wedi gostwng 30% ers 2012

# Creu gwell ysgolion, colegau a phrifysgolion

Mae canlyniadau yng Nghymru wedi bod yn gyson is na gweddill y DU ers sawl blwyddyn. Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru ystyried dyfodol ein plant a rhoi'r newidiadau sydd eu hangen ar waith, er mwyn sicrhau nad yw Cymru ar waelod tablau cynghrair addysg y DU.

Cafodd cenhedlaeth o bobl ifanc eu siomi ac ni allwn fforddio ailadrodd y sefyllfa honno. Mae angen i ni wella safonau addysg er mwyn i fusnesau allu cael gafael ar y gweithwyr medrus sydd eu hangen arnynt, ac er mwyn sicrhau na chaiff uchelgeisiau cenhedlaeth eu cyfyngu.

Llafur sy'n gyfrifol am fethiant addysg. Oherwydd cyllid gan Lywodraeth y DU, dylai Cymru fod yn gwario £1,000 yn fwy fesul disgybl nag y mae'n ei wario ar hyn o bryd. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a'r gymuned addysg gyfan yn gwneud eu gorau ond maent yn cael eu llesteirio o'r brig.

Byddwn yn dod â'r tangyllido hwn i ben ac yn rhoi ein cynllun clir i gefnogi athrawon a rhieni ar waith.

Yn ystod ein 100 diwrnod cyntaf, byddwn yn rhoi rhaglen ddychwelyd wirioneddol ar waith i'n pobl ifanc o'r dysgu a gollwyd, gan gynnig cymorth sylweddol ar gyfer tiwtora, ysgolion haf a help wedi'i dargedu i'r rheini sydd ei angen.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Darparu 5,000 o athrawon ychwanegol** ledled Cymru
- **Gwella safonau** drwy leihau maint dosbarthiadau a mynd i'r afael ag achosion o fwlio drwy gynllun mentora rhwng ysgolion
- **Rhoi'r gorau i dangyllido ein pobl ifanc** a gwarantu y bydd mwy o gyllid yn cyrraedd ystafelloedd dosbarth yn uniongyrchol
- **Symud Cymru oddi ar waelod tabl cynghrair y DU** drwy adfer targedau ar gyfer darllen, ysgrifennu, rhifedd a sgiliau digidol a newid proses arolygu Estyn
- **Sicrhau bod Cymru yn wlad o ragoriaeth** drwy annog ysgolion i anelu at statws arbenigol yn y celfyddydau, y gwyddorau, ieithoedd tramor modern a chwaraeon
- **Cynyddu cyllid ysgolion** bob blwyddyn yn ystod tymor Senedd nesaf Cymru
- **Ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal ymweliadau dirybudd ac ymgymryd â chyfrifoldebau newydd** i roi cyngor ar lywodraethu ysgolion
- **Diddymu Bagloriaeth Cymru** er mwyn caniatáu i ddisgyblion ganolbwyntio ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a'r cymwysterau galwedigaethol cyfatebol



**Barbara Hughes**
**Ymgeisydd De Clwyd**
**Ffermwr**

- **Ad-dalu ffioedd dysgu i'r rheini sy'n dewis gweithio am o leiaf bum mlynedd fel meddygon neu nyrsys yn y GIG yng Nghymru,** neu fel athrawon mewn ysgolion yng Nghymru, ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau
- **Sefydlu Gwasanaethau Cynghori ar Addysg i Gymru** er mwyn gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfaoedd addysgu, yn ogystal â safoni prosesau recriwtio ar draws pob ysgol
- **Gwarantu blwyddyn gyntaf o waith** mewn ysgol neu goleg yng Nghymru **i bob athro newydd gymhwyso**
- **Galluogi ysgolion ac athrawon i ddal i fyny ag addysg a gollwyd** drwy ohirio'r trefniadau ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith tan fis Medi 2023
- **Cyflwyno gwahanol lwybrau at ragoriaeth** drwy ehangu prentisiaethau gradd
- **Gwella gallu prifysgolion yng Nghymru i ymgymryd â gwaith ymchwil o'r radd flaenaf**

## HYRWYDDO LLESIANT DYSGWYR A SGILIAU BYWYD

- **Sicrhau bod sgiliau bywyd yn cael blaenoriaeth yn y cwricwlwm** er mwyn galluogi pobl ifanc i reoli eu cyllid ac i fwyta'n iach
- **Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant** ar gael i ddysgwyr **ym mhob ysgol, coleg a phrifysgol**
- **Cadw'r Grant Datblygu Disgyblion**
- **Cynyddu cyllid i ddysgwyr** ag anghenion dysgu ychwanegol
- **Rhoi grantiau i ofalwyr ifanc** i'w helpu i ymgymryd ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- **Cyflwyno prydau ysgol iach** gan ddefnyddio cynhwysion lleol
- **Cyflymu ac ehangu Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif** er mwyn ailadeiladu cyfleusterau addysg a'r economi yng Nghymru

## ATGYFNERTHU LLAIS A DEWIS RHIENI

- **Atal unrhyw ysgol a all ddarparu'r cwricwlwm cenedlaethol rhag cael ei chau** heb gytundeb rhieni, athrawon a llywodraethwyr
- **Creu mwy o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg** ac ystyried cyfleoedd ar gyfer trefniadau cyfnewid athrawon er mwyn galluogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- **Darparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion** sy'n mynychu eu hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf ac adolygu'r trefniadau ar gyfer trafnidiaeth am ddim i'w hysgol ffydd agosaf

## LLEIHAU FFIOEDD DYSGU A GWELLA PROFIADAU MYFYRWYR

- **Cyflwyno cynllun iawndal i fyfyrwyr** yr amharwyd ar eu cyrsiau gan y pandemig, yn enwedig y myfyrwyr hynny na allant fforddio dychwelyd
- **Haneru ffioedd dysgu i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio pynciau STEM ac ieithoedd tramor modern** mewn prifysgolion yng Nghymru er mwyn cydnabod eu gwerth i economi Cymru

- **Ad-dalu ffioedd dysgu i'r rheini sy'n dewis gweithio am o leiaf bum mlynedd fel meddygon neu nyrsys yn y GIG yng Nghymru,** neu fel athrawon mewn ysgolion yng Nghymru, ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau

- **Gweithio gyda Phrifysgolion yng Nghymru i gyflwyno graddau dwys** y gellir eu cwblhau dros gyfnod o ddwy flynedd

- **Cyflwyno Safon Ansawdd Llety Myfyrwyr** ar gyfer neuaddau preswyl

- **Helpu pobl ifanc i ymgymryd ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth** drwy gynlluniau teithio am ddim ar fysiau a phrisiau gostyngol i deithio ar reilffyrdd i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed

## HYRWYDDO ADDYSG DECHNEGOL, SGILIAU A DYSGU GYDOL OES

- **Creu Cronfa Ail Gyfle** er mwyn galluogi'r rheini sydd wedi gadael addysg ffurfiol i ddychwelyd ac astudio cymhwyster lefel tri

- **Buddsoddi £100 miliwn ychwanegol mewn colegau Addysg Bellach** er mwyn galluogi colegau i gefnogi adferiad economaidd Cymru drwy hyfforddi'r genhedlaeth nesaf a gwella sgiliau'r gweithlu presennol

- **Sefydlu Athrofa Dechnoleg yn y gogledd** sy'n canolbwyntio ar bynciau STEM

- **Defnyddio Addysg Bellach i arwain a chreu prentisiaethau** o bob prosiect seilwaith mawr a ariennir gan Lywodraeth Cymru

- **Annog pob ysgol uwchradd yng Nghymru i sefydlu menter gymdeithasol** er mwyn galluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau busnes

- **Darparu 150,000 o brentisiaethau erbyn 2026**

## BUDDSODDI MEWN GOFAL PLANT

- **Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim** i blant dwy oed

- **Helpu'r rheini ar yr incwm isaf** drwy ariannu rhaglen i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim i gael darpariaeth yn ystod pob gwyliau ysgol drwy gyfnod cyfan Senedd nesaf Cymru

- **Helpu i ddatblygu'r Mudiad Meithrin** er mwyn i fwy o rieni allu cael gafael ar ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg

- **Diwygio Dechrau'n Deg** er mwyn sicrhau y caiff ei dargedu at y teuluoedd sydd ei angen, yn hytrach nag ar sail codau post

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU

- **Cynyddu buddsoddiad y DU** mewn gwaith ymchwil a datblygu mewn prifysgolion yng Nghymru

- **Sicrhau y gall myfyrwyr o dramor** sy'n awyddus i ddod i astudio yng Nghymru **gael fisa**

- **Cynyddu lefelau cyfranogiad o Gymru yn Rhaglen Turing i'r eithaf,** yn enwedig ymhlith y rheini o gefndiroedd difreintiedig

- **Darparu mynediad i brosiectau a chyllid ymchwil rhyngwladol**





# Dychwelyd yn wyrddach

Er gwaethaf addewidion, methodd Llywodraeth Lafur Cymru â chymryd camau gwirioneddol mewn perthynas â'r amgylchedd. Dim camau mewn perthynas ag ansawdd aer. Dim camau mewn perthynas â phlastigau untro. Ar yr un pryd, cafodd pryderon ein cymunedau gwledig eu hanwybyddu yn rhy aml.

Nid yw dychwelyd at y sefyllfa a fu yn ddigon. Mae angen i ni ddychwelyd yn wyrddach, gan ddarparu mwy o swyddi gwyrdd, a chefnogi ein cymunedau ffermio a'n cymunedau amaethyddol wrth i ni weithio tuag at gyrraedd ein targedau o ran allyriadau carbon.

Bydd ein cynllun i ddychwelyd yn wyrddach hefyd yn diogelu ac yn gwella cymunedau gwledig a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt. Byddwn yn cefnogi ein ffermwyr a'n diwydiannau amaethyddol, ac yn cyflwyno deddfwriaeth i wella ansawdd aer a mynd i'r afael â phla plastigau untro.

Yn olaf, drwy ddefnyddio arfordir Cymru, gallwn greu swyddi gwyrdd hynod fedrus hirdymor, gan ddiogelu a gwella ein hamgylchedd ar yr un pryd.

- Mae'r Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn methu â chyrraedd ei tharged o ran allyriadau carbon erbyn 2050
- Pan nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged ar gyfer plannu coed – torrodd y targed yn hanner
- Caiff 13,000 o flynyddoedd eu colli oddi ar fywydau pobl bob blwyddyn yng Nghymru oherwydd llygredd aer – ac mae'n costio £1 biliwn i'r GIG bob blwyddyn

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Creu 15,000 o swyddi gwyrdd** a chyflwyno Cymru fel prif ganolfan ynni gwyrdd y byd
- **Diogelu ein moroedd a'n hafonydd** drwy wahardd plastigau untro a rhoi cynllun dychwelyd ernes ar waith
- **Helpu cymunedau i adfer ar ôl llifogydd** ac i atal llifogydd yn y dyfodol
- **Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** drwy sicrhau bod Cymru yn cyrraedd ein targed allyriadau carbon sero-net erbyn 2050

## HYRWYDDO ADFERIAD GWYRDD

- **Sefydlu Cronfa Buddsoddi yn Ynni'r Môr i Gymru gwerth £150 miliwn** er mwyn prynu ecwiti mewn prosiectau ynni'r môr, gan gynnwys prosiectau bach a phrosiectau hydro, er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy gan roi blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynnig buddiannau o ran amddiffyn rhag llifogydd

- **Diddymu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella tryloywder** a chreu dau sefydliad ar wahân sy'n canolbwyntio ar swyddogaeth fasnachol ac ar y swyddogaeth rheoleiddio bresennol

- **Creu Swyddfa Annibynnol ar gyfer Diogelu'r Amgylchedd a Newid Hinsawdd i Gymru,** er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am fynd i'r afael â newid hinsawdd a diogelu ein hamgylchedd

- **Gweithio gyda'r sector preifat** i ddenu Gigafactory cyntaf Cymru

- **Helpu'r diwydiant dur yng Nghymru** i greu'r diwydiant dur gwyrddaf yn y byd

- **Cyflwyno Deddf Aer Glân** i fynd i'r afael â llygredd a lleihau nifer yr achosion o glefydau anadlol

- **Cynyddu cosbau a gwella trefniadau gorfodi** ar gyfer tipio anghyfreithlon, baeddu gan gŵn, graffiti a sbwriel er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol yn talu am eu gweithredoedd

- **Gwahardd plastigau untro at ddefnydd anfeddygol** fel weips plastig, gwellt, troellwyr, cwpanau tafladwy a bydiau cotwm er mwyn lleihau'r niwed i fywyd gwyllt a nifer y carthffosydd a draeniau wedi'u blocio

- **Rhoi cynllun dychwelyd ernes ar waith** ar gyfer poteli a chaniau er mwyn annog ailgylchu a lleihau gwastraff

- **Ysgogi ymdrechion i greu 15,000 o swyddi coler gwyrdd hirdymor** er mwyn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau lleihau carbon

- **Gweithio gyda phrifysgolion yng Nghymru a'r sector preifat i greu canolfan ragoriaeth ac ymchwil newydd** ym maes storio a chludo ynni

- **Pennu targed ar gyfer allyriadau carbon sero-net yng Nghymru erbyn 2050** a tharged i bob cartref newydd fod yn gartref di-garbon erbyn 2026

- **Helpu teuluoedd i wella effeithlonrwydd ynni** eu cartrefi drwy gynnig talebau gwerth hyd at £5,000, gyda theuluoedd ar incwm isel yn cael hyd at £10,000

- **Gweithio gyda chwmnïau bysiau i drydaneiddio eu fflydoedd**

- **Ariannu Astudiaeth Dichonoldeb Ynni'r Llanw Cymru** er mwyn rhoi prosiectau ynni'r llanw ar waith yn gyflymach ledled Cymru a darparu data ffynhonnell agored i ddatblygwyr

## LLEIHAU'R RISG O LIFOGYDD

- **Creu Asiantaeth Llifogydd Genedlaethol** i gydgysylltu'r gwaith o reoli'r risg o lifogydd, yr ymateb i lifogydd ac i weithio gyda chymunedau lleol i gynnal ymchwiliadau annibynnol i lifogydd

- **Cynnal asesiad brys yn seiliedig ar risgiau o'r risg o lifogydd a'r amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes** yng Nghymru

- **Pennu cwmpas mesurau lliniaru llifogydd gofynnol** er mwyn cynnwys cynigion cadw dalgylchoedd

- **Dyblu'r buddsoddiad mewn amddiffynfeydd llifogydd** yng Nghymru i £120 miliwn y flwyddyn

- **Sefydlu Gwregysau Glas mewn ardaloedd lle ceir risg uchel o lifogydd** er mwyn atal datblygiadau anghyfrifol

- **Plannu o leiaf wyth miliwn o goed bob blwyddyn,** er mwyn amsugno tua hanner miliwn o dunelli o $CO_2$ y flwyddyn, gan leihau'r risg o lifogydd ar yr un pryd

## GWELLA LLES ANIFEILIAID A DIOGELU BYWYD GWYLLT

- **Rhoi cofrestr o unigolion sy'n troseddu yn erbyn anifeiliaid ar waith yng Nghymru**

- **Gwahardd unigolion rhag cadw primatiaid** fel anifeiliaid anwes

- **Adolygu'r safonau a'r gofynion cofrestru ar gyfer bridio anifeiliaid anwes** er mwyn sicrhau diogelwch digonol i anifeiliaid a chyflwyno'r gwaharddiad ar werthu cathod a chŵn i drydydd partïon yn gyflymach

- **Hyrwyddo dulliau labelu gonest er mwyn gwella'r dewis i ddefnyddwyr,** gan gynnwys gwahaniaethu rhwng dulliau o ladd anifeiliaid lle cânt eu stynio a lle na chânt eu stynio a chyflwyno systemau CCTV mewn lladd-dai

- **Sefydlu Cronfa Bywyd Gwyllt gwerth £20 miliwn i Gymru** er mwyn cefnogi ymdrechion cadwraeth ledled Cymru

## CEFNOGI FFERMWYR

- **Cyflwyno Bil Amaethyddiaeth i Gymru** yn nodi sut y caiff ein ffermwyr a'n rheolwyr tir eu cefnogi gan ddefnyddio arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus, gan helpu'r sector ar yr un pryd i fuddsoddi mewn technoleg newydd, dod yn fwy cynhyrchiol a chael pris tecach am ei gynnyrch

- **Defnyddio'r ffaith ein bod wedi gadael yr UE i annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i 'Brynu o Gymru'** er mwyn cefnogi ein ffermwyr a lleihau costau amgylcheddol

- **Gweithio gyda'r sector i fuddsoddi mewn cyfleusterau rhewi cig** i wella oes silff allforion allweddol, fel cig oen Cymreig, er mwyn gwerthu Cymru i'r byd

- **Gwarantu cymorth ariannol i ffermwyr Cymru** ar lefel heb fod yn is na'r lefel a ddarparwyd yn flaenorol gan yr UE ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod Senedd nesaf Cymru a gweithio gyda ffermwyr i greu cynllun cymorth newydd i Gymru

- **Gwrthdroi Parth Perygl Nitradau Cymru gyfan** a gweithio gyda ffermwyr ar y cod gwirfoddol y cytunwyd arno eisoes i leihau llygredd

- **Creu cymorth dychwelyd i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru** er mwyn sicrhau ei pharhad fel y dathliad bywyd gwledig mwyaf ond un yn Ewrop

## ADFYWIO'R DIWYDIANT PYSGOTA YNG NGHYMRU

- **Cynyddu cyllid i bysgodfeydd ledled Cymru** drwy gydol cyfnod Senedd nesaf Cymru a chefnogi ymdrechion i adfywio ein cymunedau arfordirol

- **Gweithio gyda rhanddeiliaid i roi strategaeth bysgota newydd ar waith i Gymru** a fyddai'n seiliedig ar yr egwyddor o'r 'arenillion cynaliadwy mwyaf posibl'

- **Gosod dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i gynnal cynaliadwyedd pysgod** ar gyfer pob stoc

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU

- **Rhoi'r gorau i werthu cerbydau petrol a diesel newydd erbyn 2030** a sicrhau nad oes unrhyw allyriadau yn dod o bibellau mwg cerbydau newydd erbyn 2035

- Sicrhau bod cytundebau masnach newydd gyda gwledydd ledled y byd yn **cyflwyno'r buddiannau gorau posibl i gynhyrchwyr yng Nghymru**

- **Dylunio Cronfa Ffyniant Gyffredin** a all dargedu pocedi o amddifadedd yng Nghymru wledig

- **Sicrhau bod Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol ar gael**

- **Gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i sefydlu Tasglu Troseddau Gwledig Cenedlaethol i Gymru**





# Cefnogi cymunedau lleol

Ledled Cymru, a gweddill y Deyrnas Unedig, daeth cymunedau ynghyd yn ystod y pandemig i helpu'r unigolion mwyaf difreintiedig yn y gymdeithas ac ymladd yn erbyn COVID-19. Rhaid cynnal yr ymdeimlad newydd hwn o gymuned wrth i ni geisio dychwelyd yn gryfach nag erioed o'r blaen. Yn anffodus, mae gormod o gymunedau yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu eu hesgeuluso ac yn dioddef o ganlyniad i benderfyniadau gwael a wneir ym Mae Caerdydd.

Bydd ein cynllun i ailadeiladu cymunedau yn eu grymuso ac yn rhoi mwy o bŵer i'r bobl sydd fwyaf ymwybodol o anghenion eu cymunedau – y bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny. Wrth i ni wneud hynny, rhaid i ni sicrhau bod Cymru yn parhau'n gymdeithas gynhwysol ac agored, gan weithio i ddileu tlodi, cael gwared ar raniadau a hyrwyddo amrywiaeth ni waeth beth fo hil, rhywedd, iaith, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol unigolion.

Mae sefydliadau celfyddydol ac elusennol, a'r unigolion sy'n eu cefnogi, yn greiddiol i'n cymunedau. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, gan eu helpu i ailadeiladu ac adfer o'r pandemig.

- Mae'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi mwy na threblu ers 1998
- Cafodd cynghorau yn y gogledd gynnydd llai yn eu cyllid na chynghorau yn y de
- Methodd Llafur Cymru â rhoi mwy o bŵer i gymunedau dros godiadau gormodol yn y dreth gyngor a methodd â diogelu gwasanaethau lleol
- Mae gan gynghorau yng Nghymru bron i £1 biliwn o gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Diogelu asedau cymunedol** drwy alluogi pobl leol i weithredu ac ehangu cyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned leol
- **Dod ag achosion o gysgu ar y stryd yng Nghymru i ben** erbyn 2026
- **Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg** ag un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- **Cefnogi aelodau o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr** am eu cyfraniad i Gymru, a defnyddio Hyrwyddwyr lleol y Lluoedd Arfog a Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru
- **Cynyddu'r cyllid i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** bob blwyddyn, ac ehangu'r gronfa Strydoedd Diogelach i gefnogi systemau CCTV a gwella goleuadau stryd ledled Cymru



**Donna Gavin**
**Ymgeisydd Merthyr Tudful a Rhymni**
**Cyn-uwchgapten yn y Fyddin**

## GRYMUSO CYMUNEDAU LLEOL

- **Grymuso cymunedau lleol i roi cynlluniau cymdogaeth ar waith,** gan ganiatáu iddynt ddylanwadu ar ble y dylid datblygu, nodweddion eu cymunedau a beth y dylai eu cymunedau ei gynnwys
- **Cyflwyno Cronfa Perchenogaeth Gymunedol** a Hawl i Wneud Cynnig er mwyn helpu i gymryd yr awenau mewn perthynas ag asedau fel llyfrgelloedd, tafarnau, canolfannau hamdden a mannau gwyrdd, yn enwedig y rheini sydd o dan fygythiad o gael eu cau neu eu datblygu
- **Diwygio'r fformiwla cyllido ar gyfer llywodraeth leol** er mwyn sicrhau cyllid teg ledled Cymru, yn enwedig yn ein cynghorau gwledig a helpu i atal codiadau yn y dreth gyngor sy'n sylweddol uwch na chwyddiant
- **Rhoi sicrwydd i bobl leol a gwasanaethau cynghorau drwy alluogi rhewi'r dreth gyngor** am ddwy flynedd gyntaf tymor y Senedd nesaf, gyda'r uchelgais o'i rhewi am y tymor cyfan
- **Cynnal refferenda ar y dreth gyngor** er mwyn i bobl leol leisio barn ar godiadau gormodol uwchlaw 5% i'r dreth gyngor
- **Sefydlu pwynt mynediad unigol ar gyfer budd-daliadau a chynlluniau cymorth** a weinyddir yng Nghymru ac ystyried y posibilrwydd o system awtomatig i hawlwyr Credyd Cynhwysol allu ei ddefnyddio
- **Gwella strydoedd lleol** drwy warantu o leiaf un casgliad gwastraff bwyd ac ailgylchu bob wythnos, a chasgliadau biniau bob pythefnos

## MYND I'R AFAEL Â DIGARTREFEDD

- **Cyflwyno model "tai yn gyntaf"** i helpu pobl ddigartref
- **Penodi Comisiynydd Digartrefedd,** yn ddelfrydol unigolyn sydd â phrofiad o ddigartrefedd, i weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â chysgu allan a'i achosion yng Nghymru erbyn 2026
- **Ailddechrau defnyddio 150 o dai cymdeithasol gwag ar unwaith** yn benodol ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddod yn ddigartref
- **Clustnodi'r cyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai** am gyfnod o dair blynedd

## SICRHAU CYFLEOEDD CHWARAEON YNG NGHYMRU

- **Sefydlu rhwydwaith o Genhadon Chwaraeon Cymru** i weithio gydag ysgolion i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ragoriaeth chwaraeon, annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a chau bylchau mewn cyfranogiad
- **Sefydlu rhwydwaith o gaeau tywarch synthetig 3G a 4G** ledled Cymru er mwyn gwella mynediad
- **Creu Cronfa Chwaraeon Talent Cymru** er mwyn helpu athletwyr talentog o Gymru i sicrhau llwyddiant rhyngwladol, gan gynnwys yn y gemau Paralympaidd a'r gemau Olympaidd
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno cais am gamau agoriadol y Tour de France a Chwpan y Byd 2030 FIFA.** Gweithio i ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr eraill i Gymru, gan gynnwys Cwpan Rygbi'r Byd 2031, Gêm Derfynol Cynghrair Europa, Gemau Invictus a Gemau'r Gymanwlad
- **Creu Cronfa Adfer Chwaraeon Cymunedol** er mwyn galluogi clybiau cymunedol i ailgodi

## CEFNOGI POBL HŶN

- **Cyflwyno gofyniad cyfreithiol i gyrff y sector cyhoeddus ymgynghori â phobl hŷn** wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Cefnogi ein pobl hŷn drwy wneud y canlynol:
  - Parhau i gynnig presgripsiynau am ddim
  - Parhau i gynnig trefniadau teithio am ddim ar fysiau
  - Hyrwyddo mynediad am ddim i safleoedd CADW i bobl dros 75 oed
  - Treialu trefniadau teithio am ddim ar reilffyrdd i bobl dros 75 oed
- **Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol blynyddol** yn erbyn cam-drin pobl hŷn, gwahaniaethu ar sail oedran a sgamiau a thwyllau
- **Sicrhau y gall pobl hŷn fanteisio ar raglenni gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

## ANRHYDEDDU EIN CYN-FILWYR AC AELODAU O'R FYDDIN

- **Cefnogi aelodau o'r lluoedd arfog a chyn-filwyr am eu cyfraniad i Gymru** a'r DU, yn enwedig drwy gydol y pandemig ac wrth roi'r rhaglen frechu ar waith, defnyddio Hyrwyddwyr lleol y Lluoedd Arfog a Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru newydd y DU drwy ddarparu'r canlynol:
  - Trefniadau teithio am ddim ar fysiau a threfniadau teithio am bris gostyngol ar reilffyrdd
  - Mynediad am ddim i safleoedd treftadaeth CADW
  - Mynediad am ddim i ganolfannau hamdden awdurdodau lleol
  - Blaenoriaeth i driniaethau'r GIG am achosion o salwch neu anafiadau sy'n gysylltiedig â'u cyfnod yn gwasanaethu
  - Blaenoriaeth i gael addasiadau i'w cartref drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- **Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gyn-filwyr GIG Cymru** er mwyn cynyddu ei gapasiti a'i allu i weithio gydag eraill i helpu cyn-filwyr ag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) a mathau eraill o salwch meddwl
- **Sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gyn-filwyr wrth gael gafael ar dai cymdeithasol** ac na chaiff unrhyw gyn-filwr ei orfodi i fyw ar y stryd

## MYND I'R AFAEL Â GWAHANIAETHU

- **Mabwysiadu diwylliant dim goddefgarwch ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru** er mwyn sicrhau na cheir unrhyw achosion o wahaniaethu ar sail rhyw, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, iaith, crefydd neu anabledd
- **Gweithio gyda Chynghrair Hil Cymru** a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Strategol
- **Gweithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill** i ymdrin â gwrth-Semitiaeth, Islamoffobia a throseddau casineb eraill sy'n ymwneud â chrefydd
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid LGBT+** er mwyn ymdrin ag achosion o wahaniaethu ac anoddefgarwch, a gwahardd yr hyn a elwir yn therapi trosi yng Nghymru
- **Ehangu gwasanaethau a sicrhau mwy o gyllid cynaliadwy i atal, diogelu a chefnogi menywod** sydd wedi profi cam-drin domestig a thrais rhywiol
- **Cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig** ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) yn y gyfraith yng Nghymru
- **Helpu cymunedau i herio trais** yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o bob math, yn enwedig drwy ddefnyddio addysg

## HYRWYDDO'R GYMRAEG

- **Cynnal targed o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**
- **Diogelu cyllid, ac annibyniaeth weithredol a golygyddol S4C**
- **Rhoi Menter Ddigidol Gymraeg ar waith** er mwyn hyrwyddo darlledu a gwasanaethau ar-lein Cymraeg
- **Cynyddu buddsoddiad mewn prosiectau sy'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol,** gan gynnwys adfywio Mentrau Iaith a chyflwyno Tipyn Bach
- **Buddsoddi i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu addysg a gofal plant** a rhoi mwy o rôl i'r Coleg Cenedlaethol o ran addysg gychwynnol i athrawon a datblygu ei ddylanwad ym maes addysg bellach ymhellach
- **Helpu'r Eisteddfod Genedlaethol ac Urdd Gobaith Cymru** i adfer o'r pandemig ac i ddatblygu

## GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH Y DU

- **Cynnal y gwaharddiad ar ganiatáu i garcharorion sydd wedi'u heuogfarnu bleidleisio mewn etholiadau**
- **Mynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod** gan gyflwyno dirwyon o hyd at £2,500 a thri mis yn y carchar
- **Denu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru**
- **Cyflwyno mannau sefyll diogel ar gaeau pêl-droed**



**James Evans**
**Ymgeisydd Brycheiniog a Sir Faesyfed**
**Ffermwr**

- Mae dros 67,000 o bobl yng Nghymru ar restr aros am dai cymdeithasol
- Mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu llai na 3,000 o dai fforddiadwy bob blwyddyn
- Mae mwy o gartrefi gwag nag ail gartrefi yng Nghymru



# Mwy o dai fforddiadwy o safon uchel

## Y sefyllfa bresennol:

### Mae'r pandemig wedi tynnu sylw sylweddol at bwysigrwydd ein cartrefi, a faint yn rhagor y mae angen ei wneud i sicrhau bod gan bobl gartrefi sy'n addas at y diben.

Er mwyn creu gwell Cymru, rydym am ddefnyddio tai i roi hwb i'r economi. Gan weithio gyda phobl leol er mwyn sicrhau y caiff tai eu hadeiladu yn y mannau priodol, a'u bod yn gydnaws â'r gymuned, yn ystyried ffactorau amgylcheddol ac yn cynnig tai fforddiadwy i bawb sydd eu hangen.

Mae bod yn berchen ar eich cartref eich hun yn freuddwyd i lawer o bobl a byddwn yn helpu pobl i wireddu'r freuddwyd hon drwy wrthdroi ymosodiad Llafur ar ddyheadau, drwy adfer yr Hawl i Brynu yng Nghymru a thrwy ddod â'r dreth ar gyfleoedd i ben er mwyn helpu pobl i ddringo'r ysgol dai.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- **Byddwn yn lansio targed uchelgeisiol i adeiladu 100,000 o dai dros y 10 mlynedd nesaf,** gan sicrhau ar yr un pryd bod digon o dai fforddiadwy ar gael yn ein cymunedau lleol, gan gynnwys 40,000 o gartrefi cymdeithasol
- **Adfer yr Hawl i Brynu yng Nghymru,** gan ailfuddsoddi elw o werthiannau i ddarparu mwy o dai cymdeithasol a diogelu cartrefi rhag cael eu gwerthu am 10 mlynedd
- **Lleihau'r Dreth Trafodiadau Tir (y Dreth Stamp)** er mwyn helpu mwy o deuluoedd a phobl sy'n gweithio'n galed i ddringo'r ysgol dai, drwy gynyddu'r trothwy pris prynu i £250,000 a'i diddymu i brynwyr tro cyntaf
- **Ehangu'r cynllun Cymorth i Brynu** i eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu
- **Ystyried opsiynau i'w gwneud hi'n haws i denantiaid symud cartref,** gan gynnwys cyflwyno pasbortau blaendal
- **Diwygio lesddeiliadaethau, gan gynnwys gweithredu gwaharddiad ar werthu cartrefi newydd ar les,** gydag eithriadau priodol, a rhoi system iawndal ar waith i lesddeiliaid
- **Sefydlu Cronfa Diogelwch Tân** er mwyn talu iawndal i lesddeiliaid am waith diogelwch tân a'r pla sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â gorchudd anniogel, gan warantu unrhyw gyllid Barnett canlyniadol gan Lywodraeth y DU i'r gronfa
- **Ymrwymo i gyrraedd a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru** a chyflwyno Safon Ansawdd Llety Myfyrwyr ar gyfer neuaddau preswyl
- **Sicrhau bod safonau tai yn addas at y diben,** yn briodol ar gyfer y dyfodol a'u bod yn gwella hygyrchedd i bawb
- **Rhoi strategaeth wirioneddol ar waith ar gyfer defnyddio cyfraniadau datblygwyr,** gan symleiddio cyllid Adran 106 er mwyn cyflymu'r broses o adeiladu tai
- **Ailwampio'r broses gynllunio yng Nghymru yn llwyr,** gan gyflwyno technoleg newydd a lleihau biwrocratiaeth a rhoi cymunedau yn gyntaf

# Ein rhaglen ddeddfwriaethol

1. Bil Amaethyddiaeth
2. Bil Lles Anifeiliaid
3. Bil Awtistiaeth a Chyflyrau Niwroddatblygiadol
4. Bil Iaith Arwyddion Prydain
5. Bil Aer Glân
6. Bil Ymrymuso'r Gymuned
7. Bil Iechyd Meddwl
8. Bil Cyfamod y GIG
9. Bil Annibyniaeth ac Arweinyddiaeth y GIG
10. Bil Hawliau Pobl Hŷn
11. Bil Cynllunio a Datblygu ar gyfer yr 21ain Ganrif
12. Bil Ansawdd Llety Myfyrwyr
13. Bil Cofebau Rhyfel ac Arwyr
14. Bil Democratiaeth ac Atebolrwydd Cymru
15. Bil Calonnau Cymru